**Enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith y CCYSAGauC (Gorffennaf 2, 2014)**

**Nominations for the Executive Committee (2 July 2014)**

Mae SAITH enwebiadau ar gyfer DWY swydd ar y Pwyllgor Gwaith.

There are SEVEN nominations for TWO positions on the Executive Committee.

**1. Y Parch. Roy Watson CYSAG Blaenau Gwent**

Mae'r Parch. Roy Watson yn Weinidog Methodistaidd sy'n gwasanaethu yn Abertyleri, Blaenau Gwent.

Mae profiad blaenorol a chyfredol y Parch. Watson fel a ganlyn:-

- Pennaeth AG, Ysgol Uwchradd Willows, Y Sblot, Caerdydd 1976 – 1996
- Aelod o CYSAG De Morgannwg 1992 – 1996
- Aelod o CYSAG Blaenau Gwent 1996 – presennol
- Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gynradd Coed-y- Garn, Nant-y-glo 1996 – presennol
- Cymdeithas Bêl-droed Cymru. Dyfarnwr Pêl-droed 1980 – 2003
- Rhan o'r Tîm o Gaplaniaid, 6ed Dosbarth, Coleg Gwent, Glyn Ebwy

**Revd. Roy Watson Blaenau Gwent SACRE**

Rev. Roy Watson is a Methodist Minister covering Abertillery, Blaenau Gwent.

Rev. Watson's previous and current experience is as follows:-

- Head of RE, Willows High School, Splott, Cardiff – 1976 – 1996
- Member of South Glamorgan SACRE 1992 – 1996
- Member of Blaenau Gwent SACRE 1996 – present
- Chair of Governors, Coed y – Garn Primary School, Nantyglo 1996 – present
- Welsh Football Association. Soccer Referee 1980 – 2003
- Part of Chaplaincy Team, 6th Form, Coleg Gwent, Ebbw Vale

**2. Y Cynghorydd D Michael Gray   CYSAG Caerphilly**

Rwy'n aelod oes o'r Eglwys Fethodistaidd. Ar ôl bod yn athro Ysgol Sul, rwy'n Bregethwr Lleol Trwyddedig yn yr Eglwys Fethodistaidd, yn organydd eglwys, ac yn swyddog eglwys ar lefelau ardal, rhanbarthol a chenedlaethol, yn ogystal â bod yn Gydlynydd Cymorth Cristnogol lleol, yn gyn-Ysgrifennydd a chyn-Gadeirydd fy nghangen leol o 'Eglwysi Ynghyd', ac yn aelod cyswllt o CYTUN .

Rwy'n Gynghorydd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ac yn Gadeirydd Pwyllgor CYSAG Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ac rwyf wedi cynrychioli CYSAG CBSC ar GCYSAGauC ers 1996.

Rwy'n gyn-aelod o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC, ac yn gyn-Is-gadeirydd (2008-2009) a chyn-Gadeirydd (2009-2011) CCYSAGauC, ac rwy'n dymuno cynnig i Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC fy mhrofiad hir o gefnogi a hybu Addysg Grefyddol mewn ysgolion ledled Cymru.

**Councillor D Michael Gray   Caerphilly SACRE**

I am a lifelong member of the Methodist Church, having been a Sunday school teacher I am an accredited local Preacher of the Methodist Church, church organist, and church officer at local, regional & national level, also area Christian - Aid Coordinator and past Secretary , Chairman of my 'ChurchesTogether' and affiliated to  CYTUN .

I am a Caerphilly County Borough Councillor, Chairman of Caerphilly County Borough Council SACRE Committee and represented CCBC SACRE on WASACRE since 1996, up to the present date.

I am a past member of the WASACRE Executive Committee and also past Vice - Chairman (2008 - 2009) and Chairman of WASACRE (2009 - 2011), and wish to offer the WASACRE EXECUTIVE my long experience of supporting and projecting Religious Education throughout the schools of Wales.

**3. Wyn Myles Meredith  CYSAG Gwynedd**

Yr wyf yn dymuno gwasanaethu ar Bwyllgor Gwaith CCYSAGC oherwydd fy mod yn ymroddedig i waith CYSAG Gwynedd yn lleol a thrwy hyn wedi mynychu a chefnogi Cymdeithas CYSAGau Cymru ers 1996 yn fy swyddogaeth fel Aelod o Gyngor Gwynedd hyd nes i mi ymddeol yn 2008.  Ers hynny, yn rhinwedd fy swydd fel Stiward Cylchdaith Meirion a Dyfi 'rwyf wedi cynrychioli'r Eglwys Fethodistaidd fel cynrychiolydd enwadol.

Tra yn Aelod ar Gyngor Gwynedd rwyf wedi gwasanaethu ar sawl pwyllgor.  Teimlaf bod fy mhrofiad ar y Pwyllgor Addysg ac yn Llywodraethwr yn golygu fy mod yn deall yr heriau sy'n wynebu ysgolion cynradd ac uwchradd yr ardal.  Rwyf yn edmygu ymroddiad Athrawon Addysg Grefyddol a Phenaethiaid Ysgolion wrth iddynt gyflwyno Addysg Grefyddol ystyrlon i blant a phobl ifanc.  'Rwy'n ymwybodol hefyd o'u hymdrechion clodwiw i sicrhau bod sesiynau addoli ar y cyd yn berthnasol i'w byd.

**Wyn Myles Meredith  Gwynedd SACRE**

I wish to serve on the WASACRE Executive Committee as I am committed to the work of Gwynedd SACRE locally and have attended and supported the Welsh Association of SACREs since 1996 in my role as a Member of Gwynedd Council until my retirement in 2008.  Since then, as part of my office as the Circuit Steward to the Meirion and Dyfi Area I have represented the Methodist Church as a denominational representative.

Whilst I was a member of Gwynedd Council I served on several committees.  I feel that my experience on the Education Committee and as a School Governor means that I understand the challenges facing primary and secondary schools in the area.  I admire the commitment of Religious Education Teachers and School Heads when they introduce meaningful Religious Education to children and young people.  I am also aware of their praiseworthy efforts to ensure that corporate worship sessions are relevant to their world.

**4. Y Cyng. Ernie Galsworthy  CYSAG Merthyr Tudful**

Bûm yn aelod o GYSAG ers Mai 2012, wedi i mi gael fy ethol i'r cyngor. Cyn hynny bûm yn gynghorydd rhwng 1987 a 2004, a gwasanaethais ar GYSAG Merthyr Tudful yn ystod y cyfnod hwn a mynychu cyfarfodydd CCYSAGauC yn ogystal.

Cefais fy magu mewn amgylchedd Bedyddwyr Cymreig, a than yr oeddwn yn 5 oed bûm yn byw gyda'm mam-gu, Cymraes nad oedd, yn anffodus, wedi dysgu Cymraeg i fy mam ond a wnaeth ei gorau i'm haddysgu i yn yr iaith. Wedi ei marwolaeth, fodd bynnag, collais yr iaith, ac ni ailafaelais ynddi tan y 1990'au hwyr pan fynychais gwrs WLPAN ym Mhrifysgol Caerdydd.

Rwy'n coleddu safbwynt heddychol, a'm harwyr yw Mahatma Gandhi, John Lennon ac Iesu Grist. Yr oeddynt ill tri'n heddychwyr, a chafodd y tri eu diwedd trwy drais. Mae bod yn heddychwr yn ddull peryglus o fyw, ac weithiau mae angen dewrder i fyw buchedd o'r fath.

Rwyf hefyd yn gynrychiolydd y cyngor ar y Pwyllgor Awdurdodau Lleol Di-niwclear; rwy'n credu bod hynny'n adlewyrchu fy nymuniad i fyw mewn heddwch.

Yr oedd fy nhri arwr yn Hindŵ, yn anffyddiwr ac yn Gristion. Er nad wyf yn cyd-fynd yn llwyr â safbwyntiau fy arwyr, mae gennyf barch mawr tuag atynt, ac rwy'n credu bod parch tuag at bob crefydd yn sylfaenol i heddwch byd-eang.

**Councillor Ernie Galsworthy  Merthyr Tudfil SACRE**

I have been a SACRE member since May 2012 after I was elected to council. I was previously a councillor from 1987 until 2004, and served on Merthyr Tydfil SACRE during this period and also attended WASACRE meetings.

I was brought up in a Welsh Baptist environment and until the age of 5 lived with my grandmother, a Welsh speaker, who unfortunately did not teach Welsh to my mother although, did her best to teach

me. Consequently after her death I lost the language and did not pick it back up again until the late 1990's when I attended a WPLAN course at Cardiff University.

I hold pacifist views and my great heroes are Mahatma Gandhi, John Lennon and Jesus Christ, All three were pacifists and met violent deaths. Being a pacifist is a dangerous way of living and sometimes courage is needed to live this life.

I am also the council representative on the Committee of Nuclear Free Local Authorities which I believe reflects how I wish to live in peace.

My three heroes were a Hindu, an atheist and a Christian. While I do not believe totally in the views of my heroes I have great respect for them and it is respect for all religions which I believe is fundamental for world peace.

**5. Gill Vaisey CYSAG Sir Fynwy**

Gill Vaisey, Ymgynghorydd Addysg Grefyddol

Mae Gill Vaisey yn athrawes gymwysedig ac yn Ymgynghorydd Addysg Grefyddol sy'n arbenigo mewn addysg gynradd ac addysg y blynyddoedd cynnar.

Ar ôl astudio ar gyfer ei gradd B.Add. Anrh, gydag Astudiaethau Crefyddol fel ei phwnc arbenigol, bu'n addysgu plant oed cynradd cyn ymgymryd â swydd fel Athrawes Ymgynghorol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Ngwent a chyflawni swydd debyg wedyn gyda Morgannwg Ganol. Ers 1996 mae Gill wedi bod yn ymgynghorydd llawrydd llwyddiannus sy'n rhoi hyfforddiant a chymorth i ALlau, Esgobaethau ac ysgolion ledled Cymru a Lloegr ac mae bellach yn adnabyddus yn genedlaethol am ei gwaith gyda phlant yn y Blynyddoedd Cynnar.

Gill yw'r ymgynghorydd proffesiynol i CYSAGau Blaenau Gwent a Sir Fynwy ac mae'n cael ei henwebu gan Sir Fynwy i fod ar Bwyllgor Gwaith CCYSAGAUC.

Mae ei phrofiad perthnasol yn cynnwys:

- Aelod gweithgar o Gymdeithas CYSAGAU Cymru ers ei sefydlu
- Wedi bod yn darparu arbenigedd proffesiynol i CYSAGau Blaenau Gwent a Sir Fynwy ers 1996
- Wedi ysgrifennu Meysydd Llafur Cytûn ar gyfer AG a deunydd cymorth, cynllunio ac asesu cynhwysfawr cysylltiedig i athrawon ar gyfer sawl Awdurdod Lleol yng Nghymru
- Hyfforddiant a gwaith ymgynghorol rheolaidd ar gyfer athrawon cynradd ac ymarferwyr y blynyddoedd cynnar ledled Cymru a Lloegr
- Rhoi hyfforddiant a chyngor i Awdurdodau Lleol ac Esgobaethau Eglwysig ledled Cymru a Lloegr

- Aelod o’r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol, y bu’n gadeirydd arno am dair blynedd
- Cynhyrchu llyfrau ac adnoddau i athrawon ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 a gomisiynwyd gan ACCAC
- Chwarae rhan a rhoi cymorth yn uniongyrchol gyda phrosiectau amrywiol gan yr Adran Addysg a Sgiliau
- Cynhyrchu a chyhoeddi adnoddau am ddim ac i’w prynu (Books at Press) i gefnogi Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru a chwricwlwm EYFS a CA1 yn Lloegr
- Cysylltiadau clòs ag ystod eang o gymunedau ffydd a chynrychiolwyr unigol
- Aelod o Gymdeithas Ymgynghorwyr ac Arolygwyr AG y DU (AREIAC) ac aelod o’r pwyllgor gwaith gan gynrychioli Cymru am bedair blynedd a darparu seminarau’n rheolaidd ar gyfer ei haelodau

Yr ethos sy’n sail i’w hymgynghoriaeth yw hybu a chefnogi rhagoriaeth mewn addysg grefyddol mewn ysgolion a sefydliadau addysgol. Byddai Gill yn falch o gael cefnogi a rhannu ei harbenigedd gyda Phwyllgor CCYSAGAUC.

**Gill Vaisey Monmouthshire SACRE**

Gill Vaisey, Religious Education Consultant

Gill Vaisey is a qualified teacher and Religious Education Consultant specialising in primary and early years education.

After studying for her B.Ed. Hons. Degree, with Religious Studies as her specialist subject, she taught primary age children before taking up a post as Advisory Teacher for Religious Education in Gwent followed by a similar post with Mid Glamorgan. Since 1996, Gill has been a successful freelance consultant providing training and support for LAs, Dioceses and schools across Wales and England and is now a nationally known figure for her work with Early Years children.

Gill is the professional consultant to Blaenau Gwent and Monmouthshire SACREs and is being nominated by Monmouthshire for a place on the WASACRE Executive Committee.

Relevant experiences include:

- An active member of the Welsh Association of SACREs since its inception
- Providing professional expertise to Blaenau Gwent and Monmouthshire SACREs since 1996
- Writing Agreed Syllabuses for RE and accompanying comprehensive teachers’ support, planning and assessment material for several Local Authorities in Wales
- Regular training and consultancy for primary teachers and early years practitioners across both Wales and England

- Providing training and advice to Local Authorities and Church Dioceses across Wales and England
- A member of the National Advisory Panel for Religious education, of which she was chairperson for three years
- Producing Key Stage 1 books and teachers' resources commissioned by ACCAC
- Direct involvement and support with various DfES projects
- Producing and publishing free and purchasable resources (Books at Press) to support the Foundation Phase Curriculum in Wales and the EYFS and KS1 curriculum in England
- Close links with a wide range of faith communities and individual representatives
- A member of the UK Association of RE Advisers, Inspectors and Consultants (AREIAC) and executive committee member representing Wales for four years and regularly providing seminars for its members

The ethos behind her consultancy is to promote and support excellence in religious education in schools and educational establishments. Gill would be pleased to support and share her expertise with the WASACRE Committee.

**6. Vicky Thomas CYSAG Torfaen**

- Rwyf wedi bod yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith am nifer o flynyddoedd a hoffwn barhau fel aelod o'r Pwyllgor Gwaith am fy mod yn credu'n gryf bod gennyf lawer i'w gynnig o hyd i'r Gymdeithas a CYSAGau Cymru. Y Gymdeithas yw llais CYSAGau yng Nghymru sy'n brwydro'n galed i gynnal a gwella sefyllfa AG ac Addoli ar y Cyd mewn ysgolion. Mae'r cwricwlwm ysgolion yn newid yn gyflym a chredaf y gall fy mhrofiad fod o fudd i'r Gymdeithas wrth ofalu am fuddiannau CYSAGau ac ysgolion.
- Rwyf wedi bod yn Ymgynghorydd AG am dros 20 mlynedd ac ers ymddeol yn gynnar yn haf 2012 rwy'n gweithio fel Ymgynghorydd i CYSAGau Caerffili, Casnewydd, Torfaen ac Abertawe.
- Rwyf wedi bod yn chwarae rhan weithgar yng ngweithgareddau CCYSAGAUC ers ei sefydlu gan roi nifer o gyflwyniadau i CCYSAGAUC. Rwyf wedi cynrychioli'r Pwyllgor Gwaith yn eu cyfarfod(ydd) blynyddol gyda'r Gweinidog Addysg neu gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. Yn wir fe wnaeth y ddau gwestiwn a ofynnais i'r Gweinidog – sef galw am gyllid i ddisgyblion Cymru ar gyfer yr ymweliad blynyddol Gwersi o Auschwitz a'r Adolygiad o AG Uwchradd gan Estyn (Hydref 2013) – ill dau sicrhau cefnogaeth Llywodraeth Cymru.
- Rwy'n cynrychioli'r Pwyllgor Gwaith ar Grŵp Rhanddeiliaid Estyn, gan fynychu cyfarfodydd ac adrodd yn ôl wrth CCYSAGAUC.

- Rwyf wedi chwarae rhan fawr yn y broses o ysgrifennu dogfennau'r maes llafur cytûn a deunyddiau cymorth ac rwy'n cynghori athrawon ynghylch rhoi'r maes llafur cytûn ar waith ac ynghylch addysgu AG yn effeithiol.
- Rwyf wedi gwasanaethu ar nifer o weithgorau sy'n cydweithio gyda'r Adran Addysg a Sgiliau ac wedi gwasanaethu ar y gweithgor ar gyfer AtGyfnerthu sy'n helpu i gynyddu hyder athrawon wrth ymdrin â materion cynhennus.
- Rwy'n arolygydd ysgolion cymwysedig ac wedi arolygu nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd dan gontract i Estyn.
- Rwy'n dal i fod yn frwd dros Addysg Grefyddol fel pwnc a'r hyn y gall ei ychwanegu at y cwricwlwm a dealltwriaeth plant a phobl ifanc.

**Vicky Thomas Torfaen SACRE**

- I have served on the Executive committee for a number of years and wish to continue as an Executive member because I strongly believe that I still have much to offer the Association and the SACREs of Wales. The Association is the voice of SACREs in Wales who are fighting hard to retain and improve the position of RE and Collective worship in schools. The school curriculum is rapidly changing and I believe that my experience can be of benefit to the Association in serving the interests of SACREs and schools.
- I have been an RE Adviser for over 20 years and since early retirement in Summer 2012 act as a Consultant Adviser for Caerphilly, Newport, Torfaen and Swansea SACREs.
- I have taken an active role in WASACRE activities since its inception making a number of presentations to WASACRE. I have represented the Executive in their annual meeting/s with the Minister for Education or WG representatives. In fact the two questions that I have put to the Minister - namely Wales' pupils to receive funding for the annual Lessons from Auschwitz visit and the Review of Secondary RE by Estyn (Autumn 2013) – both secured Welsh Government support.
- I represent the Executive on the Estyn Stakeholders group, attend meetings and report back to WASACRE.
- I have been very involved in the writing of agreed syllabus documents and support materials and advise teachers on implementing the agreed syllabus and on teaching RE effectively.
- I have served on a number of working groups that work collaboratively with DfES and served on the working party for REsilience which helps to increase teacher confidence in dealing with contentious issues.
- I am a qualified inspector of schools and have conducted a number of inspections both primary and secondary under Estyn contract.

- I continue to be passionate about Religious Education as a subject and what it can bring to the curriculum and the understanding of children and young people.

**7. Dafydd Treharne   CYSAG Bro Morgannwg**

1966 Pennaeth Adran AG a Dyniaethau mewn ysgol gyfun.

1974-96 Ymgynghorydd dros AG, Addysg Cyfrwng Cymraeg a Gofal Bugeiliol dros

AALl De Morgannwg ac yna yn ddiweddarach AALl Bro Morgannwg.

Ar hyn o bryd aelod cyfetholedig grŵp lliwio Mudiad Addysg Grefyddol Cymru (MAGC)

1992- 2010 Arolygydd Tim gydag Estyn ar AG, Y Gymraeg a Gofal Bugeiliol

1996 - Aelod o 'CYSAG' Bro Morgannwg

2010 -2013 Aelod o 'Cymdeithas CYSAGau Cymru'

1996-2012 Cadeirydd Llywodraethwyr ysgol gynradd Gymraeg yn y Fro, bellach in Is Gadeirydd.

2010 - Llywodraethwr Sylfaen mewn ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru

2010-  Warden (y Rheithor) Eglwys Ioan Fedyddiwr, Llanfleiddan, Y Bont-faen.

2013 -Vale of Glamorgan Governors Association representative on Governors Wales.

**Dafydd Treharne   Vale of Glamorgan  SACRE**

!966-1974 Head of RE and Humanities in a comprehensive school.

1974 -1996 Adviser for RE, Welsh medium education and Pastoral Care for South Glamorgan LEA and then the Vale of Glamorgan LEA.

1992- 2010 Team Inspector for ESTYN in RE, Welsh and Pastoral Care

Currently Co-opted Member of Religious Education Movement Wales (REMW)

1996 Member of Vale SACRE

2010- 2013 Member of WASACRE executive nominated by Vale SACRE.

1996-2012 Chairman of Governor in Welsh medium primary school - presently deputy chairman.

2010  Foundation Governor in CinW Primary school.

2010  Church (Rector's) Warden in St John the Baptist, Llanblethian, Cowbridge

2013 Vale of Glamorgan Governors Association representative on Governors Wales.